



Chwilio

Roderick Hunt Alex Brychta



Pïod

DRAKE






“Rydw i’n sgwennu stori am chwilio,” meddai Wilma,
“ond wn i ddim be i’w roi nesa.”

“Pwy sy’n chwilio am be?” gofynnodd Cad. “Petawn
i’n gwybod hynny, efallai y medrwn i dy helpu di.”

“Mae rhywun yn mynd ar daith i chwilio am
rywbeth sydd ar goll,” meddai Wilma.



Doedd Cad ddim yn deall o hyd, felly darllenodd Wilma y stori iddi hi.

“Erstalwm, ymhell i ffwrdd, roedd gwlad hyfryd o'r enw Wlm. Tyfai blodau ym mhobman. Trigai anifeiliaid yn y coedydd a'r coedwigoedd. Roedd pawb yno'n hapus.



Mewn ogof fawr, ymhell o dan y ddaear, roedd cloch risial Wlm. Roedd hi'n hardd iawn. Disgleiriai fel tân, hyd yn oed yn yr ogof dywyll.

Pan ganai, roedd ei sain fel miwsig. Sŵn y gloch fyddai'n dweud wrth bob anifail, planhigyn a choeden ei bod hi'n wanwyn neu haf.



Y tu allan i Wlm, trigai'r Surbwch aflan. Roedd yn byw ym mynyddoedd oer, duon gwlad Sur. Roedd o eisiau cloch risial Wlm, a bu'n chwilio amdani ers blynyddoedd.

O'r diwedd, cafodd Surbwch hyd i'r gloch. "Fi fydd biau hi am byth!" meddai.



Aeth Surbwch â'r gloch yn ôl i wlad Sur. Cariodd hi drwy'r goedwig. Yna croesodd yr anialwch creigiog. O'r diwedd, cyrhaeddodd ei gastell yn uchel yn y mynyddoedd.

Yng ngolau'r haul, edrychai'r gloch mor hardd fel na fedrai Surbwch ddioddef edrych arni.



Heb y gloch, aeth gwlad Wlm yn dywyll a llwyd. Tyfai blodau yn y gaeaf a chael eu lladd gan y rhew. Roedd hi'n bwrw eira yn yr haf.

Roedd pobl Wlm yn drist a digalon. Roedd pob harddwch wedi mynd o'r wlad ac roedd y dyddiau'n oer a hir."



Edrychodd Wilma ar Cad. "Dyna ble rydw i wedi cyrraedd," meddai. "Be wyt ti'n feddwl?"

"Mae'n ardderchog!" meddai Cad. "Fydd rhywun yn ceisio cael y gloch yn ôl?"

"Bydd," meddai Wilma. "Ond bydd rhaid iddo fod yn ddewr, fel marchog."




Daeth Dad i ystafell Cad. Roedd rhaid i Cad a Dids fynd at y deintydd am archwiliad.

“Wn i ddim pa mor hir fydda i,” meddai Cad.

“Wyt ti am fynd adref, Wilma?”

“Ga i aros yma a dal ati efo fy stori?” gofynnodd Wilma. “Mae gen i syniad.”



Ar ôl i Cad fynd, cydiodd Wilma yn ei phensel a dechrau sgwennu ei stori am y chwilio.

“Geneth ddylai ddod â'r gloch risial yn ôl,” meddyliodd. “Ie, geneth ddylai chwilio amdani.”

Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio, ac i ffwrdd â Wilma ar antur hud.



Aeth yr hud â Wilma i wlad Wlm. Roedd y wlad yn foel ac oer.

Roedd Surbwch yn aros am Wilma. Roedd yn cuddio y tu ôl i goeden. Roedd o eisiau rhwystro Wilma rhag mynd i chwilio, felly trodd ei hun yn hen wraig.



Fel roedd Wilma yn mynd heibio, meddai Surbwch, "Helo, 'mach i! Be rwyt ti'n ei wneud yma?"

"Medra i ddweud wrth hen wraig," meddylodd Wilma. "Rydw i'n mynd i achub y gloch risial rhag y Surbwch aflan," meddai hi.


"Dos y ffordd acw," meddai Surbwch.



Aeth Wilma ar hyd y llwybr roedd Surbwch wedi ei ddangos iddi. Yn fuan aeth y ddaear yn wlyb a mwdlyd. Suddodd traed Wilma i'r mwd.

“Ai dyma'r ffordd iawn?” meddylodd.

Yn sydyn, suddodd i donnen feddal. “O help! Rydw i'n suddo. Helpwch fi, rywun!”



Roedd Wilma wedi dychryn. Roedd hi'n suddo'n ddyfnach. Fedrai hi ddim dod allan o'r donnen.


Yn sydyn gwelodd unicorn gwyn yn sefyll ar fin y donnen.

“Paid â dychryn,” meddai. “Cydia yn y gangen hon a thynna i di allan.”



“Brysia! Neidia ar fy nghefn!” galwodd yr unicorn.
“Rhaid inni ddianc.”

Fel roedd yr unicorn yn carlamu drwy'r goedwig, saethodd Surbwch at Wilma. “Lwyddi di byth i ddod â'r gloch risial yn ôl,” gwaeddodd yn ddig. “Ei di byth heibio i'r ddraig.”



O'r diwedd, arhosodd yr unicorn. “Rhaid iti fynd ymlaen dy hun,” meddai. “Cha i ddim mynd ymhellach. Mae modrwy ar ruban o amgylch fy ngwddw. Cymer y fodrwy. Dim ond un dymuniad gei di ganddi hi, felly paid â'i wastraffu.” Cymerodd Wilma y fodrwy a charlamodd yr unicorn ymaith.



Cerddodd Wilma ar draws anialwch creigiog. Teimlai'n boeth a blinedig. Bu bron iddi ddymuno am ddiod, ond doedd hi ddim eisiau gwastraffu ei dymuniad.

Yna clywodd waedd. Corrach oedd yno.

"Helpwch fi!" gwaeddodd y corrach. "Brysiwch, neu bydd yn rhy hwyr."



Datglymodd Wilma y corrach. "O, diolch iti! Diolch!" gwaeddodd. "Surbwch glymodd fi'n fan'ma. Dyma ble mae o'n bwydo'i ddraig."

"Ond pam roedd o eisiau dy fwydo di i'r ddraig?" gofynnodd Wilma.

"Am 'mod i wedi llosgi ei dost," meddai'r corrach.



Yn sydyn, dechreuodd y corrach grynu. "O na!" gwichiodd. "Mae'r ddraig yn dod am ei chinio."

"O help!" meddai Wilma. Edrychodd ar y fodrwy. "Efallai y dylwn i ddefnyddio'r dymuniad i'w lladd."


Rhoddodd y corrach lemon iddi. "Rho gynnig ar hwn," meddai. "Dydi dreigiau ddim yn hoffi ogla lemon."



Dechreuodd Wilma blicio'r lemon. "Wnaiff y ddraig redeg i ffwrdd?" gofynnodd.

"Wn i ddim," meddai'r corrach. "Dydw i erioed wedi rhoi cynnig arno. Cawn wybod rwan."

"Aaaa...aaaa...tishw!" meddai'r ddraig. Rhuodd yn erchyll a hedfan i ffwrdd.




“Hwrê!” gwaeddodd y corrach. “Llwyddaist ti.”

“Roedd arna i ofn,” meddai Wilma. “Ond gweithiodd y lemon.”

Rhoddodd y corrach ddrych i Wilma. “Cymer y drych yma. Byddi di ei angen i ladd y basilisg. Mae’n waeth na’r ddraig.”

“Be ydi basilisg?” gofynnodd Wilma. “A sut y medra i ei ladd efo drych?”

“Ei lygaid sy’n lladd rhywun,” meddai’r corrach. “Pan weli di o, paid ag edrych i’w lygaid neu cei di dy droi’n garreg. Dal y drych i fyny a gadael iddo edrych i’w lygaid ei hun.”



“Wnaiff o weithio?” gofynnodd Wilma.

“Wn i ddim,” meddai'r corrach. “Dydw i erioed wedi rhoi cynnig arno. Cawn wybod rwan.”

Yn sydyn, gan ruo'n erchyll, ymosododd y basilisg arnyn nhw. Daliodd Wilma y drych i fyny a lladdwyd yr anghenfil gan ei lygaid erchyll ei hun.



“Hwrê!” galwodd y corrach. “Llwyddaist ti. Edrych, mae o wedi troi'n garreg.”

“Roeddwn i wedi dychryn,” meddai Wilma.

“Rwyd ti'n ddewr ac yn dda,” meddai'r corrach. “Dydw i erioed wedi cyfarfod person dewr, da o'r blaen. Helpa i di i chwilio.”



Aeth y corrach â Wilma i fyny at gastell Surbwch. Aethon nhw i fyny llwybr serth. Gwyddai'r corrach am ffordd gudd i fynd i mewn i'r castell.

“Dyma'r ffordd i'r gegin,” sibrydodd. “Brysia! Ond paid â gwneud sŵn.”

“Mae arna i ofn,” meddai Wilma.



Welodd Wilma a'r corrach neb yn y castell. O'r diwedd, cyrhaeddon nhw'r ystafell lle roedd y gloch risial yn hongian.

Ebychodd Wilma. Roedd hi mor hardd.

“Gwyddwn i y byddech chi'n dod,” meddai Surbwch.



“Cewch chi aros yma heno,” hisiodd Surbwch.

“Byddwch chi’n frechwast da i’r ddraig bore fory.”

“O diar! O diar!” meddai’r corrach. “Be wnawn ni rŵan?”

Edrychodd Wilma ar y fodrwy hud. “Mae’n bryd imi ddymuno,” meddai hi.



Dechreuodd dymuniad Wilma weithio. Dechreuodd y gloch ganu. Aeth ei sŵn yn uwch ac yn uwch.


Canodd yn uchel drwy’r castell nes torri cwpanau a soseri, a chracio’r gwydr yn y ffenestri.

Canodd am oriau lawer. Roedd clustiau Surbwch yn brifo wrth i’r sŵn fynd yn uwch ac yn uwch.



Fedrai Surbwch ddim dioddef rhagor o'r sŵn. Ceisiodd falu'r gloch efo morthwyl, ond thorrâi hi ddim.


"Stopiwch hi! Stopiwch hi!" gwaeddodd Surbwch. "Fedra i ddim dioddef hyn. Bydd sŵn y gloch yn fy lladd i. Bydd fy nghlustiau'n hollti."



O'r diwedd, gofynnodd Surbwch i Wilma fedrai hi wneud i'r gloch beidio â chanu.

"Medraf," meddai Wilma. "Ond rhaid iti adael imi fynd â hi'n ôl i Wlm. Os gwrthodi di, bydd hi'n dechrau canu eto, a fydd hi byth yn tewi."

"Dos â hi'n ôl i Wlm!" meddai Surbwch.



Felly aeth Wilma a'r corrach â'r gloch yn ôl i Wlm ac roedd y chwilio drosodd.

Pan ddaeth y gloch yn ôl, daeth yr harddwch yn ôl i wlad Wlm. Canai'r adar, tyfai'r blodau a thyfai dail newydd ar ganghennau'r coed.

Roedd pawb yn canmol Wilma a'r corrach.

Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio. "Mae'n bryd imi fynd," meddai Wilma. Rhoddodd y fodrwy i'r corrach. "Mae'r hud wedi gorffen," meddai hi. "Ond cadw di'r fodrwy i gofio chwilio am y gloch."

Llanwodd llygaid y corrach â dagrau. "Diolch!" meddai. "Wna i byth d'anghofio di."



Daeth Cad yn ôl o le'r deintydd. "Mae'n ddrwg gen i fod mor hir," meddai hi. "Orffennaist ti dy stori? Gawson nhw'r gloch yn ôl?"

Rhoddodd Wilma ei stori i Cad.

"Cei di ddarllen y stori os wyt ti eisio," meddai Wilma. "Cei di wybod wedyn."

Chwilio

Stori gan
Roderick Hunt

Lluniau gan
Alex Brychta

Addasiad Cymraeg gan
Emily Huws

Pïod Cam 8
Y drefn ddarllen a
gymeradwyr:

Yr Herwgipwyr
Antur Lychlynnaid
Y Peiriant Enfysau
Y Carped Hud
Diwrnod yn Llundain
Antur Fictoraidd

Pïod Cam 9
Y drefn ddarllen a
gymeradwyr:

Yr Ynys Fach Werdd
Castell y Ddrycin
Supermwls
Y Frenhines Sbwriel
Chwilio
Cadw'n Fyw



Coeden
Ddarllen
Rhydychen
Cam 9



Pïod

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1993
Ⓢ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
Ⓢ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-326-1



9 790861 743260

ISBN 0 86 174326 1

DRAKE